# Polisi ar ddefnyddio Archwilwyr Allanol ar gyfer gwaith ar wahân i archwilio

**Corff Cymeradwyo:** Y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd

**Dyddiad Cymeradwyo**: 13 Tachwedd 2020

**Perchennog y polisi:** Ysgrifenyddiaeth y Brifysgol

**Cyswllt y polisi:** Geraint Pugh, gop2@aber.ac.uk / 01970 62 2114

**Statws y polisi:** Diwygiwyd

**Fersiwn:** 3.0

**Adolygiad diwethaf:** 13 Tachwedd 2020

**Dyddiad adolygiad nesaf:** 31 Rhagfyr 2021

# Polisi ar ddefnyddio Archwilwyr Allanol ar gyfer gwaith ar wahân i archwilio

1. Cyflwyniad

Mae'r polisi hwn ar waith i liniaru unrhyw risgiau sy'n bygwth, neu sy'n ymddangos fel pe baent yn bygwth, annibyniaeth a gwrthrychedd y cwmni archwilio allanol mewn perthynas â darparu gwasanaethau nad ydynt yn rhai archwilio, ac mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r holl weithgareddau gan gynnwys is-gwmnïau Prifysgol Aberystwyth.

Mae'r polisi hwn yn unol â'r argymhellion a nodir yng Nghanllawiau'r Cyngor Adroddiadau Ariannol (FRC) ar Bwyllgorau Archwilio (2016) a gofynion safon foesegol ddiwygiedig y FRC (2019). Yn unol â'r argymhellion a'r gofynion hyn, bydd cwmni archwilio allanol ond yn cael ei benodi i gyflawni gwasanaeth pan fyddai gwneud hynny yn gyson â gofynion ac egwyddorion trosfwaol y safon foesegol, a phan fydd ei sgiliau a'i brofiad yn ei wneud y cyflenwr mwyaf addas.

O dan ddarpariaethau'r Cod Cyfunol ar lywodraethu corfforaethol, mae'n ofynnol i'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd oruchwylio'r berthynas â'r archwilwyr a chadw natur a graddau gwasanaethau nad ydynt yn rhai archwilio o dan adolygiad.

Mae'r Brifysgol yn tendro ar gyfer darpariaeth gwasanaethau Archwilio Allanol, Ymgynghori Treth ac Archwilio Grant drwy ddefnyddio OJEU (Official Journal of the European Union). Caiff y rhain i gyd eu tendro fel lotiau gwahanol. Caiff y tair lot eu dyfarnu'n unigol ac ar wahân, a gellir eu dyfarnu i'r un cyflenwr neu gyflenwyr gwahanol.

2. Diben y Polisi hwn

Mae'n bwysig nad yw annibyniaeth ein harchwilwyr allanol wrth adrodd i Gyngor y Brifysgol a Phwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd y Brifysgol yn ymddangos fel pe bai'n cael ei gyfaddawdu, ond yn yr un modd, ni ddylid amddifadu'r Brifysgol o arbenigedd lle bo angen ac y gellir ei sicrhau gan yr archwilwyr allanol yn gyffredinol.

Mae'r polisi hwn yn egluro'r bygythiadau i annibyniaeth archwilio sy'n bodoli'n ddamcaniaethol ac felly mae'n cynnig diffiniad o waith ar wahân i archwilio y gellir ei rannu gan y Brifysgol a'r archwilwyr allanol. Yna mae'n ceisio sefydlu'r prosesau cymeradwyo a'r trefniadau adrodd corfforaethol a gaiff eu sefydlu ar gyfer unrhyw waith ar wahân i archwilio y gofynnir i'r archwilwyr allanol ei gyflawni.

3. Bygythiadau i annibyniaeth

Mae Sefydliad y Cyfrifwyr Siartredig yng Nghymru a Lloegr yn rhestru'r bygythiadau canlynol i annibyniaeth:

- *Hunan-fudd* – lle gallai budd yng nghanlyniad eu gwaith neu ddyfnder perthynas â'r Brifysgol wrthdaro â gwrthrychedd yr archwilwyr;
- *Hunan-adolygu* – lle gallai'r archwilwyr fod yn gwirio gwaith eu cydweithwyr eu hunain ac o bosibl ei theimlo'n anodd dynodi risgiau a diffygion;
- *Rheoli* - lle ystyrir bod yr archwilwyr yn ymgymryd â rolau neu'n gwneud penderfyniadau a ddylai fod yn eiddo i reolwyr y Brifysgol;
- *Eiriolaeth* – a allai fod yn gynwysedig yn yr ymrwymiad ond a allai fod yn fygythiad os yw archwiliwr yn dod yn eiriolwr dros safbwynt eithafol mewn mater lle ceir anghytuno;
- *Cynefindra neu ymddiriedaeth* - lle caiff y lefel o her adeiladol a ddarperir gan yr archwilydd ei leihau o ganlyniad i wybodaeth dybiedig neu berthynas sy'n bodoli;
- *Dychryn* – lle gallai annibyniaeth yr archwilydd fod wedi'i gyfaddawdu

4. Mathau o waith ar wahân i archwilio a'r broses gymeradwyo gysylltiedig

Er mwyn sicrhau trefniadau tryloyw ar gyfer adolygu a datblygu gwaith ar wahân i archwilio heb ormod o faich gweinyddol, cytunwyd ar y tri chategori canlynol o waith fel rhai sy'n gymwys ar gyfer y gwasanaethau proffesiynol sydd ar gael gan yr archwilwyr allanol:

i. Gwaith statudol ac yn gysylltiedig ag archwilio

Ceir rhai prosiectau penodol ble mae'r gwaith yn amlwg yn gysylltiedig ag archwilio ac felly'r archwilwyr allanol sydd yn y sefyllfa orau i wneud y gwaith (e.e. gwaith rheoleiddiol a gwaith aswirio arall; er enghraifft is-gwmni newydd). Nid oes angen cymeradwyaeth y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd ar gyfer aseiniadau o'r fath. Fodd bynnag, gan gydnabod y gallai'r lefel o ffioedd ar wahân i ffioedd archwilio hefyd fod yn fygythiad i annibyniaeth, awgrymir uchafswm o £25,000 ar gyfer pob ymrwymiad unigol. Dylid ceisio cymeradwyaeth o flaen llaw gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd am unrhyw swm sy'n uwch na hynny (gweler pwynt 6 ar gyfer y broses gymeradwyo).

ii. Gwasanaethau'n gysylltiedig ag archwilio ac ymgynghori

Ceir prosiectau ac ymrwymiadau lle ystyrir mai'r archwilwyr allanol sydd yn y sefyllfa orau i wneud y gwaith:

- oherwydd eu rhwydwaith o fewn y busnes a'u hadnabyddiaeth o'r busnes (e.e. cyngor treth, diwydrwydd dyladwy a chyngor cyfrifyddu)
- oherwydd eu profiad blaenorol neu oherwydd eu bod yn arwain y farchnad.

Cynigir y dylid ceisio cymeradwyaeth o flaen llaw gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd ar gyfer prosiectau o'r natur hon sy'n uwch na throthwy o £25,000 ar gyfer unrhyw un ymrwymiad.

iii. Prosiectau nas caniateir

Ceir rhai prosiectau na ddylid eu perfformio gan yr archwilwyr allanol. Mae'r prosiectau hyn yn cynrychioli bygythiad real i annibyniaeth y tîm archwilio (fel y diffinnir gan y bygythiadau i annibyniaeth a osodir uchod) fel achos a fyddai'n gosod yr archwilwyr allanol mewn sefyllfa ble byddent yn archwilio eu gwaith eu hunain (er enghraifft, gweithredu systemau).

Ceir rhagor o fanylion am bob categori gwaith yn y tabl yn Atodiad A.

5. Proses

Ar gyfer yr holl waith arfaethedig bydd rhaid i noddwr busnes y gwaith arfaethedig sicrhau cynnig cwmpas ac amcangyfrif ffi gan yr archwilwyr allanol drwy'r Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol cyn dechrau ar y gwaith.

Os yw'r ffi'n uwch na'r trothwy o £25,000, dylid cyflwyno manylion y cynnig cwmpas a ffi i Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd am gymeradwyaeth cyn cychwyn arni. Os caiff ei gymeradwyo, dylai Ysgrifennydd y Brifysgol gofnodi'r prosiect i'w adrodd yng nghyfarfod arferol nesaf y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd a'i gofnodi mewn atodlen o waith a ffioedd ar wahân i archwilio.

Os daw'n amlwg yn ystod ymrwymiad y bydd cost derfynol y gwaith yn uwch na'r amcangyfrif gwreiddiol o ffioedd ac yn uwch na'r trothwy o £25,000, hysbysir Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd ar unwaith am gwmpas llawn yr ymrwymiad a'r cynnydd a wnaed hyd yma. Bydd yr un wybodaeth hefyd yn cael ei hadrodd i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd a drefnwyd a'i chofnodi mewn rhestr o waith a ffioedd ar wahân i archwilio.

6. Adolygu a diweddaru'r polisi hwn

Yn eu llythyr archwilio blynyddol bydd yr archwilwyr allanol yn cynnwys atodiad sy'n crynhoi unrhyw waith ychwanegol a wnaed ganddynt i'r Brifysgol a'i his-gwmnïau ac adolygiad o effeithiolrwydd y polisi hwn. Fel rhan o'r broses adrodd honno bydd yr archwilwyr allanol yn gofyn i'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd gytuno'n ffurfiol ar sail flynyddol ei fod yn fodlon gyda strwythur, cynnwys a gweithrediad y polisi hwn.

**Atodiad A**

Yn y tabl isod ceir enghreifftiau o wahanol fathau o waith y gellid gofyn i'r archwilwyr allanol ei wneud. Ni fyddai'n ymarferol cynnwys yr holl wasanaethau a ddarperir ganddynt ac felly yn y tabl isod nodir y nodweddion sy'n gyrru dosbarthiad gwasanaethau i'r gwahanol ffrydiau gwaith. Bwriedir y tabl hwn i ddarparu enghreifftiau dangosol o'r ffordd y byddai'r polisi hwn yn cael ei weithredu pe bai'r Brifysgol yn gofyn am gymorth ganddynt.

| | **Statudol ac yn gysylltiedig ag archwilio (Dim angen cymeradwyaeth y pwyllgor archwilio, oni bai ei fod dros £25K ar gyfer pob ymrwymiad unigol)** | **Gwasanaethau'n gysylltiedig ag archwilio ac aswiriant ac ymgynghori ar wahân i archwilio (Dim angen cymeradwyaeth y pwyllgor archwilio, oni bai ei fod dros £25K ar gyfer pob ymrwymiad unigol)** | **Prosiectau nas caniateir** |
|---|---|---|---|
| **Nodweddion** | • Cyngor ar feysydd sy'n greiddiol i'r archwiliad o'r datganiadau ariannol | • Angen asesiad gwrthrychol annibynnol o wybodaeth neu weithdrefnau<br>• Secondiadau staff o dan lefel uwch reolwyr<br>• Gwasanaethau ymgynghori eraill | • Cyfranogi mewn rheoli neu risg clir o hunan-fudd, adolygu neu eiriolaeth |
| **Caffaeliadau / Gwarediadau** | • Dim | • Dilysrwydd dyladwy a chyngor cysylltiedig<br>• Archwilio cyfrifon cwblhau<br>• Cytuno ar addasiad pris o ganlyniad i'r cyfrifon cwblhau<br>• Cyngor ar weithgareddau integreiddio<br>• Paratoi rhagolwg o gynigion buddsoddi | • Gweithredu'n uniongyrchol i'r Brifysgol wrth negodi gweithrediad masnachol |
| **Gwasanaethau Archwilio Mewnol a Rheoli Risg** | • Dim | • Darparu sgiliau / hyfforddiant arbenigol<br>• Cyngor ar fethodoleg a systemau<br>• Cyd-gyrchu<br>• Cyngor a chynllunio polisïau, systemau neu weithdrefnau | • Contractio'n allanol yn llawn<br>• Rhoi systemau ar waith |
| **Trethi** | • Dim | • Paratoi adroddiadau drafft<br>• Cyflwyno adroddiadau a gohebiaeth gydag awdurdodau treth<br>• Cyngor ar faterion treth<br>• Prisio trosglwyddiad<br>• Prisio at ddibenion treth | • Paratoi adroddiadau cyfrifyddu ar gyfer treth<br>• Ymdrin â thaliadau treth |
| **Aswiriant a Chyfrifyddu Cyffredinol** | • Ardystio Grantiau<br>• Cyngor ar baratoi cyfrifon a chymhwyso safonau cyfrifyddu | • Hyfforddiant ar gyfer prosiectau cyfrifyddu a rheoli risg | • Paratoi adroddiadau cyfrifyddu a gwasanaethau cadw llyfrau<br>• Paratoi gwybodaeth ariannol |